# Annog rhieni/gofalwyr i ddod i'r gweithdy 'Helpu Eich Plentyn i Fwynhau Mathemateg!'

Rydyn ni wedi llunio rhai awgrymiadau defnyddiol i'ch helpu i annog rhieni/gofalwyr i ddod i'r gweithdy 'Helpu Eich Plentyn i Fwynhau Mathemateg!' Mae'r syniadau hyn wedi'u casglu o ysgolion a fu'n rhan o'r prosiect yn flaenorol.

- Cynhaliwch y gweithdy yr un pryd â digwyddiad arall y mae rhieni/gofalwyr eisoes yn mynd iddo.
- Darparwch luniaeth.
- Cynhaliwch nifer o weithdai ar adegau gwahanol o'r dydd i weddu i rieni sy'n gweithio.
- Gofynnwch i blant greu gwahoddiadau i annog rhieni/gofalwyr i ddod.
- Gwnewch yn siŵr bod y rhieni/gofalwyr yn deall na fydd angen iddynt wneud unrhyw fathemateg go iawn yn y gweithdy.
- Rhowch gyfle i rieni/ofalwyr ymweld â'u plant cyn neu ar ôl y gweithdy.
- Cysylltwch â'r CRhA/Rhiant-Lywodraethwyr/cynrychiolwyr dosbarth/Swyddog Cyswllt Teuluoedd i hyrwyddo'r digwyddiad.
- Darparwch ofal plant ar gyfer gweithdai a gynhelir y tu allan i oriau ysgol.
- Cynhaliwch raffl y bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys ynddi'n awtomatig os byddant yn bresennol.
- Gwnewch yn siŵr bod yr holl aelodau staff, gan gynnwys yr Uwch-dîm Arwain, yn ymwybodol o'r gweithdy ac yn gallu ei hyrwyddo i deuluoedd.

*Byddem yn ddiolchgar am gael clywed am unrhyw syniadau llwyddiannus eraill i'w hychwanegu at y rhestr hon.*